

# Arwyr y tywydd

## Trosolwg

“Pa swyddi tywydd sydd ar gael?” Gwylwch rai astudiaethau achos o weithwyr y Swyddfa Dywydd, gan ystyried yr amrywiaeth o sgiliau a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer gyrfa gyffrous ym maes y tywydd. Defnyddiwch yr hyn rydych chi'n ei ddysgu i wneud ffeil ffeithiau gyrfa.

## Camau'r gweithgaredd

### 01 Ymchwil i swyddi

Edrychwch ar-lein i weld a allwch gael gwybod am rai swyddi gwahanol sy'n gysylltiedig â'r tywydd. Gallech ddechrau trwy edrych ar wefan y Swyddfa Dywydd neu sianel YouTube a nodi pa rolau gwahanol sydd gan weithwyr, ond archwiliwch gyrfaoedd ym maes y tywydd y tu allan i'r Swyddfa Dywydd hefyd ([www.youtube.com/user/TheMetOffice/](http://www.youtube.com/user/TheMetOffice/)). Gallwch hefyd wyllo'r fideo ategol ar gyfer y wers hon, ffilm 'Arwyr y tywydd' sydd ar gael yma [www.metoffice.gov.uk/schools](http://www.metoffice.gov.uk/schools)




## Amser angenrheidiol

60 munud



## Deunyddiau angenrheidiol

- Mynediad i'r we
- Deunyddiau creu poster
- Ffilm ategol arwyr y tywydd (opsiynol)



## 02 Creu ffeil ffeithiau gyrfa

Crëwch arddangosfa sy'n amlinellu rôl arbennig sy'n ddiddorol yn eich barn chi. Efallai yr hoffech chi ganolbwyntio ar ohebwy, eigionegwyr, geowyddonwyr, athrawon, gwyddonwyr amgylcheddol, gosodwyr paneli solar, technegwyr tyrbinau gwynt, peirianwyr amgylcheddol neu rywbeth arall. Pa sgiliau sydd eu hangen i wneud y swydd hon? Pam mae angen iddynt wybod am y tywydd?

### Awgrymiadau

- Gallech geisio siarad â rhywun mewn diwydiant perthnasol trwy ofyn i'ch rhieni neu'ch gwarcheidwad a ydyn nhw'n adnabod rhywun sy'n gwneud swydd debyg. Beth am greu erthygl Holi ac Ateb ynghylch yr hyn y mae swydd y person hwnnw'n ei olygu, y sgiliau sydd eu hangen arno, beth mae'n ei fwynhau fwyaf a beth yw ei sialensiau mwyaf?
- Ddim yn siŵr pa sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swydd benodol? Beth am weld a allwch chi ddod o hyd i hysbyseb swydd ar gyfer y rôl, ac edrych ar yr hyn y mae'n gofyn amdano. Edrychwch ar swyddi gwag y Swyddfa Dywydd ([www.metoffice.gov.uk/careers/current-vacancies](http://www.metoffice.gov.uk/careers/current-vacancies)) neu'r Gymdeithas Feteorolegol Frenhinol ([www.jobs.rmets.org/](http://www.jobs.rmets.org/))

## 03 Pa rôl yr hoffech chi ei chael?

Ble yn y byd rydych chi am weithio a pham? Ydych chi am weithio mewn swyddfa neu yn yr awyr agored? Sut bydd y tywydd a'r hinsawdd yn chwarae rhan yn yr hyn y byddwch chi'n ei wneud? Meddyliwch am y sgiliau sydd gennych ar hyn o bryd a pha sgiliau y byddai angen i chi eu datlygu.

## 04 Gwneud eich cais

Dychmygwch eich bod yn gwneud cais i gael profiad gwaith i wneud y swydd rydych chi wedi'i dewis a'ch bod yn ysgrifennu at y cyflogwr i'w berswadio i'ch derbyn chi. Dylai eich neges nodi eich hobiau a'ch diddordebau, y cryfderau sydd gennych sy'n eich gwneud chi'n dda ar gyfer y swydd, yn ogystal â'r profiad rydych chi wedi'i gael a'r sgiliau rydych chi wedi'u datblygu yn yr ysgol neu'r tu allan iddi. Nid oes rhaid i'r rhain fod yn bethau rydych chi eisoes wedi'u gwneud, ond gallent fod yn seiliedig ar nodau sydd gennych chi neu lle rydych chi'n gweld eich hun ymhen ychydig flynyddoedd.